Andrew Davies AC

Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

9 Gorffennaf 2003

Annwyl

Mewn cyfarfod ar y cyd ar 26 Mehefin, bu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn trafod y materion a godwyd yn 'A modern regional policy for the United Kingdom'. Mae'r llythyr hwn yn crynhoi trafodaethau'r Pwyllgorau.

Yn gyntaf, mae'n destun pryder i Aelodau nad yw'n bosib gweld ar hyn o bryd beth yn union mae'r cynigion yn ei olygu yn ymarferol. Mae'r amcangyfrifon, o ran yr effaith y byddai'r cynigion hyn a chynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn ei chael ar lefel yr arian sydd ar gael i gefnogi datblygu rhanbarthol o fewn y DU a hefyd mewn rhannau eraill o Ewrop ehangach, yn amrywio'n fawr. Heb ffigurau mwy dibynadwy, mae'n anodd asesu'n iawn effaith y cynigion eraill.

Mae gan Aelodau bryder ynghylch faint o ffydd fyddai gan bobl yn y system arfaethedig. Dan y trefniadau cyfredol, mae rhaglenni'r UE yn cael eu cyflwyno am gyfnod o 7 mlynedd a gall buddiolwyr fod yn ffyddiog na fydd unrhyw newidiadau mawr yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae cyllid o fewn y DU yn cael ei gynllunio ar gyfer cyfnodau llawer byrrach – 3, neu 5 mlynedd ar y mwyaf fel rheol a rhaid bod hyn yn arwain at ansicrwydd ynghylch blynyddoedd olaf unrhyw raglen. Yn ogystal, bydd unrhyw raglenni hefyd yn dibynnu ar ffactorau gwleidyddol er enghraifft newid polisi a newid llywodraeth. Bydd y ddau hyn yn effeithio mewn ffordd negyddol iawn ar y cynlluniau newydd.

Mae gennym bryderon am y ffordd y byddai polisi rhanbarthol yn cael ei ddatblygu'n ymarferol dan y trefniant arfaethedig, ac yn arbennig, a fyddai'r amcan o ddatganoli penderfyniadau o fewn Ewrop yn arwain at fwy o ganoli o fewn y DU. Er bod modd trosglwyddo penderfyniadau o lefel yr UE, mae

pryder mawr na fyddent yn cael eu pasio y tu hwnt i lefel y DU neu hyd yn oed yn cael eu cymryd ar lefel Cymru gyfan yn hytrach nag ar lefel leol.

Mae gennym bryderon ynghylch sut y byddai'n bosibl, dan y trefniadau arfaethedig, i wneud cymariaethau ystyrlon rhwng y gwahanol Aelod-wladwriaethau. Dan y system gyfredol, mae hyn yn gymharol syml, ond byddai llawer yn anos, os nad yn amhosibl, gyda'r Aelod-wladwriaethau'n gweithredu systemau gwahanol.

Mae'r papur yn cydnabod y byddai angen diwygio'r drefn Cymorth Gwladol, law yn llaw â'r cynigion hyn. Mae Aelodau'n pryderu beth fyddai hyn yn ei olygu, yn ymarferol, ac roeddent yn teimlo ei bod yn anodd dod i gasgliadau doeth ar y cronfeydd strwythurol heb wybod beth oedd yn mynd i ddigwydd i'r Cymorth Gwladol.

Er bod y cynigion wedi cael eu cyflwyno ar y cyd gan y tair Adran, ymddengys fod y Trysorlys yn awyddus iawn i leihau'r cyfraniad ariannol y mae'r DU yn ei wneud i'r UE. Mae hyn yn destun pryder i rai Aelodau. Nid oedd Aelodau eraill o'r un farn ac roeddent hwy yn teimlo y gallai'r cynigion fod yn fanteisiol i Gymru ac y gallai lleihad yn y cyfraniad cyffredinol i'r UE hefyd fod o fantais i Gymru.

Law yn llaw â hyn, mae pryderon nad yw'r trefniadau presennol, dan fformwla Barnett, yn ddigon hyblyg i ddelio â'r taliadau dan y system hon.

Mae Aelodau'n cydnabod y manteision amlwg i Gymru yn sgil y rhaglen Cronfeydd Strwythurol, nid yn unig am eu bod wedi hwyluso'r potensial ar gyfer buddsoddiad mawr ond hefyd am eu bod wedi galluogi Cymru i feithrin cysylltiadau gwerthfawr gyda rhanbarthau eraill Ewrop. Mae Aelodau'n pryderu'n arbennig nad yw'r cynigion fel petaent yn cydnabod y manteision olaf hyn.

**Sandy Mewies AC**

**CADEIRYDD – Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**